



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 1495 (Cy.145)

2006 No. 1495 (W.145)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

**Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a
Gwerthwyr Pysgod a Dynodi
Safleoedd Arwerthu Pysgod
(Cymru) 2006**

**The Registration of Fish Buyers
and Sellers and Designation of Fish
Auction Sites (Wales) Regulations
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Erthygl 22 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 2371/2002, "y Rheoliad CFP", (O.J. Rhif L 358, 31.12.02, t.59) ac Erthygl 9 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 (O.J. Rhif. L 261, 20.10.93, t.1) sy'n gorfodi gofynion o ran marchnata a phrynu pysgod gyntaf (pysgod gwerthiant cyntaf). Daw y rheoliadau i rym ar 9 Mehefin 2006 ac maent yn gymwys yng nghyswllt Cymru.

These Regulations make provision for the administration and enforcement of Article 22 of Council Regulation (EC) No 2371/2002, "the CFP Regulation", (O.J. No. L 358, 31.12.02, p.59) and Article 9 of Council Regulation (EEC) No 2847/93 (O.J. No. L 261, 20.10.93, p.1) which impose requirements relating to the first marketing and purchasing of fish (first sale fish). The Regulations come into force on 9 June 2006 and apply in relation to Wales.

Mae'r Rheoliadau'n darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gofrestru gwerthwyr pysgod gwerthiant cyntaf (rheoliad 3), dynodi safleoedd arwerthu pysgod (rheoliad 6) a chofrestru prynwyr pysgod gwerthiant cyntaf (rheoliad 7). Yn ôl Rheoliad 5 mae'n ofynnol i werthwyr pysgod cofrestredig gadw cofnodion o'r pysgod gwerthiant cyntaf a werthir ganddynt ac yn ôl Rheoliad 9 mae'n ofynnol i brynwyr pysgod gwerthiant cyntaf gadw cofnodion o'r pysgod gwerthiant cyntaf a brynir ganddynt. Ac mae'r Rheoliadau'n darparu troseddau at ddibenion gorfodi'r cofrestriadau a'r dynodiadau hyn (rheoliadau 3(9), 3(10), 5(7), 6(8), 6(9), 7(8), 7(9) a 9(7)).

The Regulations make provision for the registration by the National Assembly for Wales of sellers of first sale fish (regulation 3), designation of fish auction sites (regulation 6) and registration of buyers of first sale fish (regulation 7). Regulation 5 requires registered fish sellers to maintain records of their sales of first sale fish and regulation 9 requires buyers of first sale fish to maintain records of their purchases of first sale fish. And the Regulations provide offences for the purposes of the enforcement of these registrations and designations (regulations 3(9), 3(10), 5(7), 6(8), 6(9), 7(8), 7(9) and 9(7)).

Mae'r Rheoliadau'n darparu troseddau o ran prynu a gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf. Mae Rheoliad 4 yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un werthu pysgod gwerthiant cyntaf mewn safle arwerthu dynodedig oni bai ei fod wedi cofrestru'n werthwr pysgod. Yn ôl rheoliad 8 mae'n drosedd prynu pysgod gwerthiant cyntaf yn groes i Erthygl 22(2)(b) o'r Rheoliad CFP

The Regulations provide offences in relation to the sale and purchase of first sale fish. Regulation 4 provides an offence to sell first sale fish at a designated auction site unless registered as a fish seller. By regulation 8 it is an offence to buy first sale fish contrary to Article 22(2)(b) of the CFP Regulation (requirement that buyers of first sale fish are

(gofyniad fod prynwyr pysgod gwerthiant cyntaf wedi'u cofrestru) o'i ddarllen gydag is-baragraff olaf Erthygl 22(2), sy'n eithrio pysgod a brynir ar gyfer treuliant preifat. Yn ôl rheoliad 10 mae'n drosedd gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf a gaiff eu glanio mewn unrhyw ffordd ac eithrio gan gwch pysgota trwyddedig. Ac yn ôl rheoliad 11 mae'n drosedd prynu pysgod gwerthiant cyntaf oni bai fod y pysgod wedi cael eu glanio gan gwch pysgota trwyddedig.

Mae rheoliad 12 yn darparu cosbau ar gyfer y troseddau hyn: am gollfarn ddiannod, dirwy heb fod dros yr uchafswm statudol, am gollfarn o ddiad, dirwy. Pan gollfarnir person am drosedd o dan rheoliadau 3(9), 3(10), 5(7) 6(8), 6(9), 7(8), 7(9) neu 9(7) bydd gan lys hawl i ddirymu'r cofrestriad neu'r dynodiad dan sylw hefyd a gall orchymyn fod person a gollfarnir yn cael ei anghymhwysu rhag gwneud cais i gofrestru neu am ddynodiad am gyfnod penodol.

Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno pwerau gorfodi ar swyddogion pysgodfeydd môr Prydain at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn. Gellir arfer y pwerau hyn mewn cysylltiad â safleoedd ac unrhyw gwch pysgota o fewn Cymru (rheoliadau 13 i 15). Mae rheoliad 16 yn darparu i ddiogelu swyddogion pysgodfeydd môr Prydain ac mae rheoliad 17 yn darparu troseddau a chosbau i'w rhwystro. Mae rheoliad 18 yn darparu o ran troseddau gan gorfforaethau.

registered) as read with the final sub-paragraph of that Article 22(2), which provides an exception for fish bought for private consumption. By regulation 10 it is an offence to sell first sale fish landed otherwise than by a licensed fishing vessel. And by regulation 11 it is an offence to buy first sale fish unless the fish has been landed by a licensed fishing vessel.

Penalties for these offences are provided by regulation 12: on summary conviction, a fine not exceeding the statutory maximum and on conviction on indictment a fine. Where a person is convicted of an offence under regulations 3(9), 3(10), 5(7) 6(8), 6(9), 7(8), 7(9) or 9(7) a court may also revoke the registration or designation concerned and may order that the person convicted is disqualified from applying for registration or designation for a specified period.

The Regulations confer powers of enforcement on British sea fishery officers for the purposes of enforcing these Regulations. These powers may be exercised in relation to premises and any fishing boat within Wales (regulations 13 to 15). Regulation 16 makes provision for protection of British sea fishery officers and regulation 17 provides offences and penalties for their obstruction. Regulation 18 makes provision in respect of offences by bodies corporate.

2006 Rhif 1495 (Cy.145)

2006 No. 1495 (W.145)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES,
WALES****Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a
Gwerthwyr Pysgod a Dynodi
Safleoedd Arwerthu Pysgod
(Cymru) 2006****The Registration of Fish Buyers
and Sellers and Designation of Fish
Auction Sites (Wales) Regulations
2006**

Wedi'u gwneud 6 Mehefin 2006
Yn dod i rym 9 Mehefin 2006

Made 6 June 2006
Coming into force 9 June 2006

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi (1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(2) mewn cysylltiad â pholisi amaeth cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a chan arfer y pwerau a roddwyd arno gan yr adran honno 2(2) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community and in exercise of the powers conferred upon it by the said section 2(2) hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006.

(2) Daw y Rheoliadau hyn, sy'n berthnasol mewn perthynas â Chymru, i rym ar 9 Mehefin 2006.

(3) Gellir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac i bob diben achlysurol, gellir ymdrin â'r drosedd fel pe bai wedi'i chyflawni yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of these Regulations is the Registration of Fish Buyers and Sellers and Designation of Fish Auction Sites (Wales) Regulations 2006.

(2) These Regulations, which apply in relation to Wales, come into force on 9 June 2006.

(3) Proceedings for an offence under these Regulations may be taken, and for all incidental purposes the offence may be treated as having been committed, in any place in the United Kingdom.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "cwch pysgota trwyddedig" ("*licensed fishing vessel*") yw cwch pysgota y rhoddwyd trwydded iddo o dan adran 4 o Ddeddf (Cadwraeth) Pysgod Môr 1967(3) neu ddarpariaethau cyffelyb yn ymwneud â physgodfeydd gan Aelod-Wladwriaeth

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"Article 9" ("*Erthygl 9*") means Article 9 of Council Regulation (EEC) No. 2847/93 establishing a control system applicable to the Common Fisheries Policy(3) as last amended by Council Regulation (EC) No. 768/2005(4);

(1) O.S. 2005/2766.

(2) 1972 p.68.

(3) 1967 p.84.

(1) S.I. 2005/2766.

(2) 1972 c.68.

(3) OJ No. L261, 20.10.1993, p. 1.

(4) OJ No. L128, 21.05.2005, p. 1.

arall neu gan yr awdurdodau priodol yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu wlad arall;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaethau cywerth" ("*equivalent provisions*") yw unrhyw ddarpariaeth yn unrhyw reoliadau eraill a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 at ddibenion gweithredu Erthygl 9, neu Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP, yn ymestyn i unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, y mae ei heffaith yn gyfwerth ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys gwybodaeth a gofnodwyd mewn unrhyw ffurf;

ystyr "Erthygl 9" ("*Article 9*") yw Erthygl 9 Rheoliad Cyngor (EEC) Rhif 2847/93 yn sefydlu system reoli sy'n gymwys i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad Cyngor (EC) Rhif 768/2005(2);

ystyr "gwerthwr pysgod cofrestredig" ("*registered fish seller*") yw person a gofrestrwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 3;

ystyr "PLN" ("*PLN*") yw rhif porthladd cwch o fewn ystyr rheoliad 31 Rheoliadau Llongau Masnach (Cofrestru Llongau) 1993(3);

ystyr "prynwr pysgod cofrestredig" ("*registered fish buyer*") yw person a gofrestrwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 7;

ystyr "pysgod" ("*fish*") yw cynnyrch pysgodfeydd a gaiff eu glanio o gwch pysgota y mae Erthygl 9 neu Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP yn berthnasol iddo;

ystyr "pysgod gwerthiant cyntaf" ("*first sale fish*") yw pysgod sy'n cael eu marchnata am y tro cyntaf; ac

ystyr "y Rheoliad CFP" ("*the CFP Regulation*") yw Rheoliad Cyngor 2371/2002 ar warchod a datblygu adnoddau pysgodfeydd yn gynaliadwy o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (4).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, bydd unrhyw gyfeiriad at unrhyw werthwr pysgod yn cynnwys-

- (a) asiant sy'n gwerthu pysgod ar ran y gwerthwr; a,
- (b) masnachwr mewn arwerthiant.

"the CFP Regulation" ("*y Rheoliad CFP*") means Council Regulation 2371/2002 on the conservation and sustainable exploitation of fisheries resources under the Common Fisheries Policy(1);

"document" ("*dogfen*") includes information recorded in any form;

"equivalent provisions" ("*darpariaethau cywerth*") means any provision in any other regulations made under section 2(2) of the European Communities Act 1972 for the purposes of implementing Article 9, or Article 22 of the CFP Regulation, extending to any part of the United Kingdom, which has equivalent effect to any provision in these Regulations;

"first sale fish" ("*pysgod gwerthiant cyntaf*") means fish being marketed for the first time;

"fish" ("*pysgod*") means fishery products landed from a fishing vessel to which Article 9 or Article 22 of the CFP Regulation applies;

"licensed fishing vessel" ("*cwch pysgota trwyddedig*") means a fishing vessel in respect of which a licence has been issued under section 4 of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(2) or under similar fisheries related provisions by another Member State or by the appropriate authorities in the Channel Islands, Isle of Man or another country;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"PLN" ("*PLN*") means a vessel's port number within the meaning of regulation 31 of the Merchant Shipping (Registration of Ships) Regulations 1993(3);

"registered fish buyer" ("*prynwr pysgod cofrestredig*") means a person who is registered by the National Assembly in accordance with regulation 7; and

"registered fish seller" ("*gwerthwr pysgod cofrestredig*") means a person who is registered by the National Assembly in accordance with regulation 3.

(2) In these Regulations, any reference to a fish seller includes-

- (a) an agent who sells fish on behalf of the seller; and,
- (b) an auction trader.

(1) OJ Rhif L261, 20.10.1993, t.1.

(2) OJ Rhif L128, 21.05.2005, t.1.

(3) O.S. 1993/3138; yr offeryn diwygio perthnasol yw 1999/3206.

(4) OJ Rhif L358, 31.12.2002, t.59.

(1) OJ No. L358, 31.12.2002, p.59.

(2) 1967 c.84.

(3) S.I. 1993/3138; the relevant amending instrument is 1999/3206.

(3) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, nad ydynt wedi'i diffinio ym mharagraffau (1) na (2) uchod ac sy'n ymddangos yn y Rheoliad CFP neu Erthygl 9, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd ganddynt at ddibenion y Rheoliad CFP neu Erthygl 9.

Cofrestru gwerthwyr pysgod

3.-(1) Mae gwerthwr pysgod cofrestredig wedi'i awdurdodi at ddibenion Erthygl 9, i'r graddau y bo'r person hwnnw'n gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf drwy unrhyw fath o fidio cystadleuol mewn safle arwerthu dynodedig un ai ar ei ran ei hun neu fel asiant y gwerthwr,

(2) Caiff unrhyw berson wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gofrestru'n werthwr pysgod, gan ddefnyddio ffurflen o'r math a ragnodir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais i gofrestru'n werthwr pysgod gynnwys datganiad gyda'r cais yn nodi'r cyfleusterau a'r dulliau gweithredu arfaethedig y mae'n fwriad gan yr ymgeisydd eu defnyddio a'r man lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu cadw'r cofnodion gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf.

(4) Wrth ystyried cais i gofrestru rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried a yw'r datganiad ynglŷn â'r cyfleusterau a dulliau gweithredu arfaethedig yr ymgeisydd, a'r man ble mae'r ymgeisydd yn bwriadu cadw'r cofnodion gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf yn gyfryw ag y byddant o gymorth i'r ymgeisydd gydymffurfio ag Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP a'r Rheoliadau hyn.

(5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad ynglŷn â chais a wnaed iddo'n unol â'r rheoliad hwn.

(6) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu cofrestriad bydd yn ddarostyngedig i Atodlen 1 a rhaid iddo bennu'r amodau a restrir ynddi.

(7) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o werthwyr pysgod cofrestredig yn y fath fodd ag y gwêl yn dda.

(8) Gellir atal cofrestriad gwerthwr pysgod lle bo'r gwerthwr pysgod, ym marn y Cynulliad Cenedlaethol, heb-

- (a) gydymffurfio ag un o amodau cofrestru; neu,
- (b) gydymffurfio ag un o ofynion Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP neu'r Rheoliadau hyn.

(9) Mae unrhyw berson sy'n gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n fyrbwyll at ddibenion cais o dan y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

(10) Mae unrhyw werthwr pysgod cofrestredig sy'n

(3) Expressions used in these Regulations, which are not defined in paragraphs (1) or (2) above and which appear in the CFP Regulation or Article 9, have the same meaning in these Regulations as they have for the purposes of the CFP Regulation or Article 9.

Registration of fish sellers

3.-(1) A registered fish seller is authorised for the purposes of Article 9, insofar as that person sells first sale fish by any form of competitive bidding at a designated auction site either on their own behalf or as the seller's agent.

(2) Any person may apply, using such form as the National Assembly may prescribe, to the National Assembly to be registered as a fish seller.

(3) An applicant for registration as a fish seller must include with the application a statement of the facilities and the proposed methods of operation the applicant intends to use and of the place where the applicant intends to maintain the records of sales of first sale fish.

(4) In considering an application for registration the National Assembly must take into account whether the statement as to the facilities and proposed methods of operation of the applicant, and of the place where the applicant intends to maintain the records of sales of first sale fish, are such as to assist compliance by the applicant with Article 9, Article 22 of the CFP Regulation and these Regulations.

(5) The National Assembly must notify an applicant in writing of its decision on an application made to it in accordance with this regulation.

(6) Where the National Assembly grants a registration it will be subject to and must specify the conditions listed at Schedule 1.

(7) The National Assembly must publish a list of registered fish sellers in such manner as it sees fit.

(8) The registration of a fish seller may be suspended where, in the view of the National Assembly, the registered fish seller has not-

- (a) complied with a condition of registration; or,
- (b) complied with any requirement of Article 9, Article 22 of the CFP Regulation or these Regulations.

(9) Any person who knowingly or recklessly makes a false statement for the purposes of an application under this regulation is guilty of an offence.

(10) Any registered fish seller who sells first sale fish

gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf yn groes i un o amodau cofrestru'n euog o drosedd.

Gwerthiant pysgod gan werthwr anghofrestredig

4. Bydd unrhyw berson sydd yn-
- (a) gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf trwy unrhyw fath o fidio cystadleuol mewn safle arwerthu dynodedig, un ai ar ran y person hwnnw ei hun neu fel asiant i'r gwerthwr; a
 - (b) heb fod yn werthwr pysgod cofrestredig,
- yn euog o drosedd.

Cadw cofnodion gan werthwr pysgod cofrestredig

5.-(1) Rhaid i werthwr pysgod cofrestredig gadw cofnodion, pob gwerthiant pysgod gwerthiant cyntaf a wneir gan y gwerthwr pysgod cofrestredig mewn man a hysbysir i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r cofnodion y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn gynnwys yr holl wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob gwerthiant-

- (a) dyddiad a lleoliad y gwerthiant;
- (b) nifer pob rhywogaeth a werthwyd;
- (c) y pris a dalwyd am bob rhywogaeth a werthwyd;
- (ch) enw a PLN y cwch a laniodd y pysgod;
- (d) enw, cyfeiriad a rhif cofrestru'r prynwr pan fo ar gael;
- (dd) rhif cyfeirnod yr anfoneb neu'r contract gwerthu.

(3) Rhaid i werthwr pysgod cofrestredig gadw cofnodion pob gwerthiant fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant hwnnw.

(4) Rhaid i werthwr pysgod cofrestredig sicrhau fod y cofnodion gwerthiant pysgod ar gael i'w harchwilio ar bob adeg resymol yn y man a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i werthwr pysgod cofrestredig nad yw ei fusnes yn gweithredu o'r Deyrnas Unedig neu nad yw wedi'i sefydlu yno-

- (a) un ai-
 - (i) enwi man yn y Deyrnas Unedig lle bydd y cofnodion ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant y mae a wnelo'r cofnodion ag ef; neu
 - (ii) gyflwyno'r cofnodion yn flynyddol o'r dyddiad cofrestru; a
- (b) chyflwyno'r cofnodion o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn cais gan y Cynulliad Cenedlaethol.

in breach of a condition of registration is guilty of an offence.

Sale of fish by unregistered seller

4. Any person who-
- (a) sells first sale fish by any form of competitive bidding at a designated auction site, either on that person's own behalf or as an agent of the seller; and
 - (b) is not a registered fish seller,
- is guilty of an offence.

Maintenance of records by registered fish seller

5.-(1) A registered fish seller must maintain records, of each sale of first sale fish that the registered fish seller makes, at the place notified to the National Assembly in accordance with these Regulations.

(2) The records referred to in this regulation must include all of the following information in relation to each sale-

- (a) date and location of the sale;
- (b) quantities of each species sold;
- (c) price paid for each species sold;
- (d) name and PLN of the vessel which landed the fish;
- (e) name, address and, where available, registration number of the buyer;
- (f) reference number of the invoice or contract of sale.

(3) A registered fish seller must keep the records of each sale as required by this regulation until the end of the second calendar year following that sale.

(4) A registered fish seller must make available for inspection at all reasonable times the records of sale of fish at the place notified to the National Assembly.

(5) A registered fish seller whose business does not operate from or is not established in the United Kingdom must-

- (a) either-
 - (i) nominate a place in the United Kingdom where the records will be made available to the National Assembly until the end of the second calendar year following the sale to which the records relate; or
 - (ii) submit the records annually from the date of registration; and
- (b) submit the records within 28 days of a demand by the National Assembly.

(6) Rhaid i werthwr pysgod cofrestredig nad yw ei fusnes yn gweithredu o'r Deyrnas Unedig neu nad yw wedi'i sefydlu yno gadw cofnodion pob gwerthiant fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant hwnnw.

(7) Mae gwerthwr pysgod cofrestredig nad yw'n cadw'r cofnodion neu'n trefnu iddynt fod ar gael fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

Dynodi safleoedd arwerthu pysgod

6.-(1) Caiff unrhyw berson wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio ffurflen o'r math a ragnodir gan y Cynulliad, i ddynodi man at ddibenion Erthygl 9 ac Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP fel safle arwerthu pysgod.

(2) Rhaid i gais i ddynodi o dan y rheoliad hwn gynnwys datganiad ynglŷn â'r cyfleusterau a'r dulliau gweithredu arfaethedig a ddefnyddir ar y safle.

(3) Wrth ystyried cais i ddynodi o dan y rheoliad hwn, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd i gyfrif a yw'r datganiad ynglŷn â'r cyfleusterau a'r dulliau gweithredu arfaethedig ar y safle yn gyfryw ag y byddant o gymorth i gydymffurfio gydag Erthygl 9, Erthygl 22 y Rheoliad CFP a'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad ynglŷn â chais i ddynodi a wnaed yn unol â'r rheoliad hwn.

(5) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo dynodiad bydd yn ddarostyngedig i Atodlen 2 a rhaid iddo bennu'r amodau a restrir ynddi.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o safleoedd arwerthu pysgod dynodedig yn ôl fel y gwêl yn dda.

(7) Gellir atal dynodiad safle arwerthu pysgod pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn-

- (a) na chydymffurfiwyd ag amod yr oedd y dynodiad a ganiatawyd yn ddarostyngedig iddo; neu
- (b) nad yw'r dulliau gweithredu a'r cyfleusterau ar y safle'n cydymffurfio â gofynion Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP neu'r Rheoliadau hyn.

(8) Bydd unrhyw berson sy'n gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n fyrbwyll at ddibenion y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

(9) Bydd unrhyw berson sy'n rheoli safle arwerthu pysgod dynodedig, neu ran o safle o'r fath, ac sy'n torri un o amodau dynodi'r safle, yn euog o drosedd.

(10) Yn y rheoliad hwn-

(6) A registered fish seller whose business does not operate from or is not established in the United Kingdom must keep the records of each sale as required by this regulation until the end of the second calendar year following that sale.

(7) A registered fish seller who fails to keep or make available the records as required by this regulation is guilty of an offence.

Designation of fish auction sites

6.-(1) Any person may apply to the National Assembly, using such form as it may prescribe, to have a place designated for the purposes of Article 9 and Article 22 of the CFP Regulation as a fish auction site.

(2) An application for designation under this regulation must include a statement as to the facilities and proposed methods of operation which will be used at the site.

(3) In considering an application for designation under this regulation the National Assembly will take into account whether the statement as to the facilities and proposed methods of operation at the site are such as to assist compliance with Article 9, Article 22 of the CFP Regulation and these Regulations.

(4) The National Assembly must notify the applicant in writing of its decision on an application for designation made in accordance with this regulation.

(5) Where the National Assembly grants a designation it will be subject to and must specify the conditions listed at Schedule 2.

(6) The National Assembly must publish a list of designated fish auction sites in such a manner as it sees fit.

(7) The designation of a fish auction site may be suspended where in the view of the National Assembly-

- (a) a condition subject to which the designation was granted has not been complied with; or
- (b) the methods of operation and facilities at the site do not comply with the requirements of Article 9, Article 22 of the CFP Regulation or these Regulations.

(8) Any person who knowingly or recklessly makes a false statement for the purposes of this regulation is guilty of an offence.

(9) Any person who has control over a designated fish auction site, or part of such a site, and breaches a condition of the site's designation, is guilty of an offence.

(10) In this regulation-

mewn cysylltiad â safle arwerthu pysgod dynodedig neu unrhyw ran o safle o'r fath, bydd "person sy'n rheoli safle arwerthu pysgod dynodedig" yn cynnwys, perchennog y safle neu'r rhan honno, neu asiant y perchennog, neu unrhyw berson sy'n rheoli mewn unrhyw fodd neu'n meddu ar y safle neu'r rhan honno.

Cofrestru prynwyr pysgod

7.-(1) At ddibenion Erthygl 22(2)(b) o'r Rheoliad CFP caiff unrhyw berson wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gofrestru'n brynwr pysgod, gan ddefnyddio'r ffurflen a ragnodir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i gais i gofrestru'n brynwr pysgod gynnwys datganiad ynglŷn â'r cyfleusterau a'r dulliau arfaethedig y bwriada'r ymgeisydd eu defnyddio a'r man lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu cadw'r cofnodion gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf.

(3) Wrth ystyried cais rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried a yw'r datganiad ynglŷn â dulliau gweithredu arfaethedig yr ymgeisydd, a'r man lle mae'r ymgeisydd yn bwriadu cadw'r cofnodion prynu pysgod gwerthiant cyntaf yn gyfryw ag y byddant o gymorth i gydymffurfio gydag Erthygl 9, Erthygl 22 y Rheoliad CFP a'r Rheoliadau hyn.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu ymgeisydd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad ynglŷn â chais a wnaed iddo'n unol â'r rheoliad hwn.

(5) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo cofrestriad bydd yn ddarostyngedig i Atodlen 3 ac yn gorfod pennu'r amodau a restrir ynddi.

(6) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi rhestr o brynwyr pysgod cofrestredig yn ôl fel y gwêl yn dda.

(7) Gellir atal cofrestriad prynwr pysgod, pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn nad yw'r prynwr pysgod cofrestredig wedi-

- (a) cydymffurfio ag amod cofrestru; neu,
- (b) cynnal busnes mewn modd sy'n cydymffurfio gyda gofynion Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP neu'r Rheoliadau hyn.

(8) Bydd unrhyw berson sy'n gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n fyrbwyll at ddibenion cais o dan y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

(9) Bydd unrhyw brynwr pysgod sy'n gwrthod cydymffurfio ag amod cofrestru'n euog o drosedd.

Prynu pysgod gan brynwr anghofrestredig

8.-(1) Bydd unrhyw berson sy'n prynu pysgod yn groes i Erthygl 22(2)(b) o'r Rheoliad CFP, o'i darllen gydag is-baragraff olaf Erthygl 22(2), yn euog o drosedd.

"person who has control of a designated fish auction site" includes, in relation to a designated fish auction site or any part of such a site, the owner of the site or that part, or the owner's agent, or any person who exercises any control over or is in possession of the site or that part.

Registration of fish buyers

7.-(1) For the purposes of Article 22(2)(b) of the CFP Regulation any person may apply to the National Assembly to be registered as a fish buyer, using such form as the National Assembly may prescribe.

(2) An application for registration as a fish buyer must include a statement of the facilities and the proposed methods of operation the applicant intends to use and of the place where the applicant intends to maintain the records of purchases of first sale fish.

(3) In considering an application the National Assembly must take into account whether the statement as to the proposed methods of operation of the applicant, and of the place where the applicant intends to maintain the records of purchases of first sale fish, are such as to assist compliance by the applicant with Article 9, Article 22 of the CFP Regulation and these Regulations.

(4) The National Assembly must notify an applicant in writing of its decision on an application made to it in accordance with this regulation.

(5) Where the National Assembly grants a registration it will be subject to and must specify the conditions listed at Schedule 3.

(6) The National Assembly must publish a list of registered fish buyers in such manner as it sees fit.

(7) The registration of a fish buyer may be suspended where, in the view of the National Assembly, the registered fish buyer has not-

- (a) complied with a condition of registration; or,
- (b) conducted business in a manner that complies with the requirements of Article 9, Article 22 of the CFP Regulation or these Regulations.

(8) Any person who knowingly or recklessly makes a false statement for the purposes of an application under this regulation is guilty of an offence.

(9) Any registered fish buyer who fails to comply with a condition of registration is guilty of an offence.

Purchase of fish by an unregistered buyer

8.-(1) Any person who buys fish contrary to Article 22(2)(b) of the CFP Regulation, as read with the final sub-paragraph of Article 22(2), is guilty of an offence.

(2) Bydd unrhyw berson sydd-

- (a) yn prynu pysgod ac a fyddai oni bai am is-baragraff olaf Erthygl 22(2) yn euog o drosedd o dan baragraff (1); ac
- (b) ar y dydd y mae'r person hwnnw'n prynu'r pysgod yn prynu cyfanswm o dros 25 kilogram o bysgod,

yn euog o drosedd.

(3) Bydd unrhyw berson sy'n prynu pysgod gwerthiant cyntaf gan unrhyw un heblaw gwerthwr pysgod cofrestredig ac yntau heb fod yn brynwr pysgod cofrestredig, yn euog o drosedd.

(4) Nid yw person yn euog o drosedd o dan baragraff (3) os-

- (a) nad yw'r person hwnnw'n prynu mwy na 25 kilogram o bysgod ar y diwrnod dan sylw; ac
- (b) mae'r person hwnnw'n gallu'n dangos mai ar gyfer treuliant preifat y mae'r holl bysgod a brynwyd ar y diwrnod hwnnw.

Cadw cofnodion gan brynwr pysgod cofrestredig

9.-(1) Rhaid i brynwr pysgod cofrestredig gadw cofnodion pob pryniant pysgod gwerthiant cyntaf a wneir ganddo ynghyd â'u darparu i'w harchwilio.

(2) Rhaid i'r cofnodion y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn gynnwys yr holl wybodaeth a ganlyn parthed pob pryniant unigol-

- (a) dyddiad a lleoliad y pryniant;
- (b) nifer pob rhywogaeth a brynwyd;
- (c) y pris a dalwyd am bob rhywogaeth a brynwyd;
- (ch) enw a PLN y cwch a laniodd y pysgod;
- (d) enw, cyfeiriad a rhif cofrestru'r gwerthwr pan fo ar gael;
- (dd)rhif cyfeirnod yr anfoneb neu'r contract gwerthu.

(3) Rhaid i brynwr pysgod cofrestredig gadw cofnodion pob gwerthiant fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn yn y man a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant hwnnw.

(4) Rhaid i brynwr pysgod cofrestredig drefnu fod cofnodion pryniant pysgod ar gael i'w harchwilio ar bob adeg resymol yn y man a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i brynwr pysgod cofrestredig nad yw ei fusnes yn gweithredu o'r DU ac nad yw wedi'i sefydlu yno-

- (a) un ai-
 - (i) enwi lle yn y DU lle bydd y cofnodion ar

(2) Any person who-

- (a) buys fish and but for the final sub-paragraph of Article 22(2) would have been guilty of an offence under paragraph (1); and
- (b) on the day that person buys the fish that person buys a total of more than 25 kilogrammes of fish,

is guilty of an offence.

(3) Any person who, on its first sale, buys fish other than from a registered fish seller and is not a registered fish buyer, is guilty of an offence.

(4) A person is not guilty of an offence under paragraph (3) if-

- (a) that person does not buy more than 25 kilogrammes of fish on the day in question; and
- (b) that person can show that all of the fish bought on that day is for private consumption.

Maintenance of records by registered fish buyer

9.-(1) A registered fish buyer must maintain and make available for inspection records of every purchase of first sale fish that the buyer makes.

(2) The records referred to in this regulation must include all of the following information in relation to each individual purchase-

- (a) date and location of the purchase;
- (b) quantity of each species purchased;
- (c) price paid for each species purchased;
- (d) name and PLN of the vessel which landed the fish;
- (e) name, address, and where available, the registration number of the seller;
- (f) reference number of the invoice or contract of sale.

(3) A registered fish buyer must keep the records of each purchase, as required by this regulation, and at the place notified to the National Assembly until the end of the second calendar year following that purchase.

(4) A registered fish buyer must make available for inspection at all reasonable times the records of purchases of fish at the place notified to the National Assembly.

(5) A registered fish buyer whose business does not operate from or is not established in the UK must-

- (a) either-
 - (i) nominate a place in the UK where the

gael i'r Cynulliad Cenedlaethol hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr ar ôl y pryniant; neu

(ii) gyflwyno'r cofnodion bob blwyddyn o'r dyddiad cofrestru; a

(b) chyflwyno'r cofnodion o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn cais gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(6) Rhaid i brynwr pysgod cofrestredig nad yw ei fusnes yn gweithredu o'r DU gadw cofnodion pob pryniant fel sy'n orfodol gan y rheoliad hwn hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y pryniant hwnnw.

(7) Mae prynwr pysgod cofrestredig nad yw'n cadw'r cofnodion neu'n trefnu iddynt fod ar gael fel sy'n ofynnol gan y rheoliad hwn yn euog o drosedd.

Gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf wedi'u glanio o gwch pysgota trwyddedig

10. Mae unrhyw berson sy'n gwerthu pysgod gwerthiant cyntaf sydd wedi'u glanio yng Nghymru mewn unrhyw ffordd ac eithrio gan gwch pysgota trwyddedig yn euog o drosedd.

Prynu pysgod gwerthiant cyntaf wedi'u glanio o gwch pysgota trwyddedig

11.-(1) Mae unrhyw berson sy'n prynu pysgod gwerthiant cyntaf sydd wedi'u glanio mewn unrhyw ffordd ac eithrio gan gwch pysgota trwyddedig yn euog o drosedd.

(2) Mewn unrhyw achos a ddygir am drosedd o dan baragraff (1), mae'n amddiffyniad i berson ddangos-

- (a) nad oedd y person ddim yn gwybod; a'i
- (b) bod yn rhesymol i'r person hwnnw beidio ag amau,

nad oedd y pysgod wedi'u glanio gan gwch pysgota trwyddedig.

Cosbau

12.-(1) Mae person a gollfernir o drosedd o dan y Rheoliadau hyn yn agored-

- (a) ar gollfarn ddiannod i ddirwy dim uwch na'r uchafswm statudol; neu
- (b) ar gollfarn o dditiad, i ddirwy.

(2) Yn ychwanegol at y cosbau ym mharagraff (1), bydd gan lys hawl hefyd-

- (a) mewn cysylltiad â throedd o dan reoliadau 3(9), 3(10) neu 5(7), i orchymyn fod cofrestriad y person a gollfarnwyd yn cael ei ddiddymu a bod y person yn cael ei anghymwyso rhag gwneud cais i gofrestru o dan reoliad 3, neu'n cael ei anghymwyso rhag gwneud cais o dan reoliad 3 am gyfnod penodol;

records will be made available to the National Assembly until the end of the second calendar year following purchase; or

(ii) submit the records annually from the date of registration; and

(b) submit the records within 28 days of a demand by the National Assembly.

(6) A registered fish buyer whose business does not operate from the UK must keep the records of each purchase as required by this regulation until the end of the second calendar year following that purchase.

(7) A registered fish buyer who fails to keep or make available the records as required by this Regulation is guilty of an offence.

Sale of first sale fish landed from a licensed fishing vessel

10. Any person who sells first sale fish which has been landed in Wales otherwise than by a licensed fishing vessel is guilty of an offence.

Purchase of first sale fish landed from a licensed fishing vessel

11.-(1) Any person who buys first sale fish which has been landed otherwise than by a licensed fishing vessel is guilty of an offence.

(2) In any proceedings for an offence under paragraph (1), it is a defence for a person to show that-

- (a) the person did not know; and
- (b) it was reasonable for that person not to suspect,

that the fish had not been landed by a licensed fishing vessel.

Penalties

12.-(1) A person convicted of an offence under these Regulations is liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

(2) In addition to the penalties in paragraph (1), a court may also-

- (a) in relation to an offence under regulations 3(9), 3(10) or 5(7), order that the registration of the person convicted is revoked and that the person be disqualified from applying for registration under regulation 3, or be disqualified from applying for registration under regulation 3 for a specified period;

- (b) mewn cysylltiad â throedd o dan reoliad 6(8) neu 6(9), i orchymyn fod dynodiad y safle'n cael ei ddiddymu neu orchymyn fod y sawl a gollfarnwyd yn cael ei anghymwysu rhag gwneud cais i ddynodi safle o dan reoliad 6 neu'n cael ei anghymwysu rhag gwneud cais i ddynodi safle o dan y rheoliad hwnnw am gyfnod penodol; ac
- (c) mewn cysylltiad â throedd o dan reoliadau 7(8), 7(9) neu 9(7), i orchymyn fod cofrestrriad person a gollfarnwyd yn cael ei ddiddymu a bod y person hwnnw'n cael ei anghymwysu rhag gwneud cais i gofrestru o dan reoliad 7 neu'n cael ei anghymwysu rhag gwneud cais i gofrestru o dan y rheoliad hwnnw am gyfnod penodol.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain mewn cysylltiad â chychod pysgota

13.-(1) At ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaethau cywerth, caiff unrhyw swyddog pysgodfeydd môr Prydain arfer y pwerau a gyflwynir gan yr erthygl hon mewn cysylltiad ag unrhyw gwch pysgota o fewn Cymru.

(2) Bydd hawl gan y swyddog i fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a aseiniwyd i gynorthwyo gyda dyletswyddau'r swyddog hwnnw, a chaiff ofyn am stopio'r cwch a gwneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso un ai mynd ar fwrdd y cwch neu ddod oddi arno.

(3) Caiff y swyddog fynnu fod y meist'r a phersonau eraill sydd ar fwrdd y cwch yn dod ger ei fron a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymholiad sy'n angenrheidiol yn ôl ei farn ef at y diben a grybwyllwyd ym mharagraff (1) y rheoliad hwn ac, yn arbennig-

- (a) bydd hawl ganddo i chwilio am bysgod neu daclau pysgota ar y cwch a chaiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch a chyfarpar y cwch, gan gynnwys y taclau pysgota, a bydd hawl ganddo i fynnu fod personau ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r swyddog i hwyluso'r archwiliad;
- (b) bydd hawl ganddo ofyn i unrhyw berson ar fwrdd y cwch ddangos unrhyw ddogfen yn ymwneud â'r cwch, yn ymwneud ag unrhyw weithrediadau pysgota neu weithrediadau ategol at hynny neu i'r personau ar y bwrdd sydd yng nghadwraeth neu berchnogaeth y person hwnnw;
- (c) at ddibenion canfod a gyflawnwyd trosedd o dan y Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau cywerth, bydd hawl ganddo i chwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a bydd hawl ganddo i fynnu fod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r swyddog er hwyluso'r archwiliad;

- (b) in relation to an offence under regulation 6(8) or 6(9), order that the designation of the site be revoked or order that the person convicted be disqualified from applying to have a site designated under regulation 6 or be disqualified from applying to have a site designated under that regulation for a specified period; and
- (c) in relation to an offence under regulations 7(8), 7(9) or 9(7), order that the registration of the person convicted is revoked and that that person be disqualified from applying for registration under regulation 7 or be disqualified from applying for registration under that regulation for a specified period.

Powers of British sea-fishery officers in relation to fishing boats

13.-(1) For the purpose of enforcing these Regulations or any equivalent provisions, any British sea-fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any fishing boat within Wales.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in that officer's duties, and may require the boat to stop and do anything else which will facilitate either the boarding of, or the disembarkation from, the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose mentioned in paragraph (1) of this regulation and, in particular-

- (a) may search for fish or fishing gear on the boat and may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (b) may require any person on board the boat to produce any document relating to the boat, to any fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board which is in that persons custody or possession;
- (c) for the purpose of ascertaining whether an offence under these Regulations or any equivalent provisions has been committed, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;

- (ch) bydd hawl ganddo i archwilio a chymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath a roddir i'r swyddog neu y deuir o hyd iddi ar y cwch;
- (d) heb ragfarnu is-baragraffau (c) ac (ch), caiff fynnu fod y meist'r ac unrhyw berson sy'n gyfrifol am y cwch ar y pryd yn trosi pob dogfen o'r fath sydd ar system cyfrifiadur i ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys mynnu fod unrhyw ddogfen o'r fath yn cael ei chynhyrchu mewn ffurf gludadwy; a
- (dd) pan fo'r cwch yn un y mae gan y swyddog reswm dros amau fod trosedd wedi'i gyflawni arno o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaethau cywerth, bydd hawl ganddo i atafaelu a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a roddir i'r swyddog ar y cwch at ddibenion gallu defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth o'r drosedd mewn achos;

ond nid oes dim yn is-baragraff (dd) uchod yn caniatáu atafaelu a chadw unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol ei chario ar y cwch yn ôl y gyfraith ac eithrio tra bo'r cwch yn cael ei gadw'n gaeth mewn porthladd.

(4) Pan fo'n ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydain fod trosedd wedi'i chyflawni o dan y Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau cywerth ar unrhyw adeg, bydd hawl gan y swyddog i-

- (a) ofyn i feistr y cwch mewn cysylltiad â'r hwn y digwyddodd y drosedd, neu caiff y swyddog, fynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd sy'n ymddangos i'r swyddog fel y porthladd cyfleus agosaf; a
- (b) chadw neu fynnu fod y meist'r yn cadw'r cwch yn gaeth yn y porthladd;

a lle bo swyddog o'r fath yn cadw cwch yn gaeth, neu'n mynnu fod cwch yn cael ei gadw'n gaeth rhaid i'r swyddog gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r meist'r yn datgan y cedwir y cwch yn gaeth neu ei bod yn ofynnol ei gadw'n gaeth hyd nes bydd y rhybudd yn cael ei ddiddymu trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig pellach i'r meist'r wedi'i lofnodi gan swyddog pysgodfeydd môr Prydain.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain ar dir

14.-(1) At ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau cywerth, caniateir i unrhyw swyddog pysgodfeydd môr yng Nghymru-

- (a) fynd i mewn ac archwilio ar unrhyw adeg resymol unrhyw fangre a ddefnyddir ar gyfer cynnal unrhyw fusnes mewn cysylltiad â gweithredu cychod pysgota neu weithgareddau cysylltiedig â hynny neu ategol at hynny neu gysylltiedig â thrin, storio, prynu neu werthu pysgod;
- (b) mynd ag unrhyw bersonau eraill sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r swyddog

- (d) may inspect and take copies of any such document produced to the officer or found on board;
- (e) without prejudice to sub-paragraphs (c) and (d), may require the master and any person for the time being in charge of the boat to render all such documents on a computer system into a visible and legible form, including requiring any such document to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (f) where the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that an offence under these Regulations or any equivalent provisions has been committed, may seize and detain any such document produced to the officer on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

but nothing in sub-paragraph (f) above permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(4) Where it appears to a British sea-fishery officer that an offence under these Regulations or any equivalent provisions has at any time been committed, the officer may-

- (a) require the master of the boat in relation to which the offence took place to take, or the officer may take, the boat and its crew to the port which appears to the officer to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Powers of British sea-fishery officers on land

14.-(1) For the purpose of enforcing these Regulations or any equivalent provisions, any British sea-fishery officer may in Wales-

- (a) enter and inspect at any reasonable time any premises used for carrying on any business in connection with the operation of fishing boats or activities connected therewith or ancillary thereto or with the treatment, storage, purchase or sale of fish;
- (b) take with him or her such other persons as appear to the officer to be necessary and any

gydag ef ynghyd ag unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau;

- (c) archwilio unrhyw bysgod sydd yn y fangre a mynnu fod personau sydd yn y fangre'n gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r swyddog i hwyluso'r archwiliad;
- (ch) cynnal unrhyw archwiliadau neu brofion eraill o'r fath allai fod yn rhesymol angenrheidiol mewn mangre felly;
- (d) mynnu nad yw unrhyw berson yn symud pysgod neu'n peri i bysgod gael eu symud o fangre o'r fath am gyfnod angenrheidiol resymol at ddibenion sefydlu a gyflawnwyd trosedd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaethau cywerth;
- (dd) mynnu fod unrhyw berson yn y fangre'n dangos unrhyw ddogfennau sydd yng ngofal neu berchnogaeth y person hwnnw mewn cysylltiad â dal, glanio, cludo, trawslwytho, gwerthu neu waredu unrhyw bysgod neu'n gysylltiedig ag unrhyw gwch pysgota'n mynd i mewn i unrhyw borthladd neu harbwr neu'n ymadael oddi yno;
- (e) at ddibenion cadarnhau a yw unrhyw berson yn y fangre wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaethau cywerth, chwilio'r fangre am unrhyw ddogfen o'r fath a mynnu fod unrhyw berson yn y fangre'n gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r swyddog er hwyluso'r chwiliad;
- (f) archwilio a chymryd copïau o unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog neu a ddarganfyddir yn y fangre;
- (ff) mynnu fod unrhyw berson priodol neu gyfrifol yn trosi unrhyw ddogfen o'r fath sydd ar system gyfrifiadur i ffurf weladwy a darllenadwy, gan gynnwys mynnu ei bod yn cael ei chynhyrchu mewn ffurf gludadwy; a
- (g) os oes rheswm gan y swyddog i amau fod trosedd wedi'i gyflawni o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaethau cywerth, i atafaelu a chadw unrhyw ddogfen o'r fath a ddangosir i'r swyddog hwnnw neu a ddarganfuwyd yn y fangre fel y gellir defnyddio'r ddogfen fel tystiolaeth mewn achos ar gyfer y drosedd.

(2) Mae darpariaethau paragraff (1) uchod hefyd yn gymwys gydag addasiadau angenrheidiol mewn perthynas ag unrhyw dir a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw rai o'r gweithgareddau a ddisgrifir ym mharagraff (1) uchod, neu yng nghyswllt unrhyw gerbyd neu gynhwysydd y mae gan swyddog pysgodfeydd môr Prydain achos rhesymol dros gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio i gludo cynhyrchion pysgodfeydd, fel y maent yn gymwys yn achos

equipment or materials;

- (c) examine any fish on the premises and require persons on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the examination;
- (d) carry out at such premises such other inspections or tests as may reasonably be necessary;
- (e) require any person not to remove or cause to be removed any fish from such premises for such a period as may be reasonably necessary for the purposes of establishing whether an offence under these Regulations or any equivalent provisions has at any time been committed;
- (f) require any person on the premises to produce any documents which are in that person's custody or possession relating to the catching, landing, transportation, trans-shipment, sale or disposal of any fish or to the entry to, or exit from, any port or harbour by any fishing vessel;
- (g) for the purpose of ascertaining whether any person on the premises has committed an offence under these Regulations or any equivalent provisions, search the premises for any such document and require any person on the premises to do anything which appears to the officer to be necessary for facilitating the search;
- (h) inspect and take copies of any such document produced to the officer or found on the premises;
- (i) require any appropriate or responsible person to render any such document on a computer system into a visible and legible form, including requiring it to be produced in a form in which it may be taken away; and
- (j) if the officer has a reason to suspect that an offence under these Regulations or any equivalent provisions has been committed, seize and detain any such document produced to that officer or found on the premises for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence.

(2) The provisions of paragraph (1) above also apply with necessary modifications in relation to any land used in connection with any of the activities described in paragraph (1) above, or in respect of any vehicle or container which a British sea-fishery officer has reasonable cause to believe is being used to transport fisheries products, as they apply in relation to premises and, in the case of a vehicle, include power to require the vehicle to stop at any time and, if necessary, direct

mangre ac, yn achos cerbyd, yn cynnwys yr hawl i fynnu fod y cerbyd yn aros ar unrhyw adeg ac, os oes angen cyfeirio'r cerbyd i rywle arall i hwyluso'r archwiliad.

(3) Os yw ynad heddwch yn fodlon, ar sail gwybodaeth ar lw ysgrifenedig-

- (a) fod achos rhesymol dros gredu fod unrhyw ddogfennau neu eitemau eraill y mae gan swyddog pysgodfeydd môr yr hawl i'w harchwilio o dan y rheoliad hwn yn unrhyw fangre a bod eu harchwilio'n debygol o ddatgelu tystiolaeth fod trosedd wedi'i chyflawni o dan y Rheoliadau hyn neu ddarpariaethau cywerth; ac
- (b) un ai-
 - (i) y gwrthodwyd mynediad i'r fangre neu'i bod yn debygol y'i gwrthodir a bod y deiliad wedi cael rhybudd o'r bwriad i wneud cais am warant; neu
 - (ii) y byddai cais am fynediad neu roi rhybudd o'r fath yn gwadu pwrpas mynediad, neu fod y fangre'n wag, neu fod y deiliad yn absennol dros dro ac y gallai aros i'r deiliad ddychwelyd wadu pwrpas mynediad;

bydd hawl gan yr ynad, trwy warant a lofnodir ganddo, ac sy'n ddilys am un mis, i awdurdodi swyddog pysgodfeydd môr Prydain i fynd i mewn i'r fangre, gan ddefnyddio grym rhesymol os bydd angen, ac i'r swyddog fynd â'r bobl hynny yr ymddengys iddo eu bod yn angenrheidiol i'w ganlyn.

Pwerau swyddogion pysgod môr Prydain i atafaelu pysgod

15.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw gwch pysgota yng Nghymru.

(2) Lle bo'r rheoliad hwn yn gymwys, bydd hawl gan unrhyw swyddog pysgod môr Prydain i atafaelu unrhyw bysgod (gan gynnwys unrhyw gynhwysydd sy'n dal pysgod) y mae gan y swyddog achos rhesymol dros amau y cyflawnwyd trosedd mewn cysylltiad â hwy o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaeth gywerth.

Diogelu swyddogion

16. Ni fydd swyddog Pysgodfeydd môr Prydain na pherson sy'n cynorthwyo swyddog o'r fath yn rhinwedd rheoliadau 13(2) neu 14(1)(b) neu awdurdod a roddwyd o dan reoliad 14(3) o'r Rheoliadau hyn yn atebol mewn unrhyw achos suful neu droseddol am unrhyw beth a wneir wrth arfer yn honedig y pwerau a roddwyd i'r person hwnnw gan reoliadau 13 i 15 o'r Rheoliadau hyn os yw'r llys yn fodlon y gwnaed y weithred yn ddiwyll, fod achos rhesymol dros wneud hynny a'i bod wedi ei wneud gyda medr a gofal rhesymol.

the vehicle to some other place to facilitate the inspection.

(3) If a justice of the peace on sworn information in writing is satisfied-

- (a) that there is reasonable ground to believe that any documents or other items which a British sea-fishery officer has power under this regulation to inspect are on any premises and that their inspection is likely to disclose evidence of the commission of an offence under these Regulations or any equivalent provisions; and
- (b) either-
 - (i) that admission to the premises has been or is likely to be refused and that notice of intention to apply for a warrant has been given to the occupier; or
 - (ii) that an application for admission or the giving of such notice would defeat the object of the entry, or that the premises are unoccupied, or that the occupier is temporarily absent and it might defeat the object of the entry to await the occupier's return;

the justice may by warrant signed by him or her, and valid for one month, authorise a British sea-fishery officer to enter the premises, if need be by reasonable force, and take with the officer such persons as appear to the officer to be necessary.

Powers of British sea-fishery officers to seize fish

15.-(1) This regulation applies to any fishing boat in Wales.

(2) Where this regulation applies, any British sea-fishery officer may seize any fish (including any receptacle which contains the fish) in respect of which the officer has reasonable grounds to suspect that an offence under these Regulations or under any equivalent provision, has been committed.

Protection of officers

16. A British sea-fishery officer or a person assisting such an officer by virtue of regulations 13(2) or 14(1)(b) or authorisation under regulation 14(3) of these Regulations will not be liable in any civil or criminal proceedings for anything done in the purported exercise of the powers conferred on that person by regulations 13 to 15 of these Regulations if the court is satisfied that the act was done in good faith, that there were reasonable grounds for doing it and that it was done with reasonable skill and care.

Rhwystro swyddogion

17.-(1) Mae unrhyw berson-

- (a) nad yw'n cydymffurfio heb reswm digonol ag unrhyw ofyniad a orfodir gan swyddog pysgodfeydd môr Prydain o dan bwerau a gyflwynir i swyddogion pysgodfeydd môr Prydain gan reoliadau 13, 14 a 15 o'r Rheoliadau hyn;
- (b) heb reswm digonol yn rhwystro neu'n ceisio rhwystro unrhyw berson arall rhag cydymffurfio gydag unrhyw ofyniad o'r fath; neu
- (c) sy'n ymosod ar unrhyw swyddog sy'n arfer unrhyw rai o'r pwerau a gyflwynwyd i'r swyddog o dan reoliadau 13, 14 a 15 o'r Rheoliadau hyn neu'n fwriadol yn rhwystro unrhyw swyddog o'r fath sy'n arfer unrhyw rai o'r pwerau hynny,

yn euog o drosedd.

(2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan baragraff (1) yn agored-

- (a) ar gollfarn ddiannod i ddirwy dim uwch na'r uchafswm statudol; neu
- (b) ar gollfarn o dditiad i ddirwy.

Troseddau gan gyrff corfforaethol

18.-(1) Pan brofir bod unrhyw drosedd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaeth gywerth a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i chyflawni gyda chaniatâd neu oddefiad, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb i'r corff corfforaethol, neu berson sy'n honni gweithredu mewn unrhyw awdurdod o'r fath, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforaethol yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi'n unol â hynny.

(2) Pan brofir bod unrhyw drosedd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaeth gywerth a gyflawnwyd gan bartneriaeth wedi'i chyflawni gyda chaniatâd neu oddefiad, neu i'w phriodoli i esgeulustod ar ran partner, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r bartneriaeth yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi'n unol â hynny.

(3) Lle profir bod unrhyw drosedd o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddarpariaeth gywerth a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth), wedi'i chyflawni gyda chaniatâd neu oddefiad, neu i'w phriodoli i esgeulustod ar ran unrhyw swyddog i'r gymdeithas neu unrhyw aelod o'i gorff llywodraethu, bydd y person hwnnw yn ogystal â'r gymdeithas yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i'w gosbi'n unol â hynny.

Obstruction of officers

17.-(1) Any person who-

- (a) fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed by a British sea-fishery officer under the powers conferred on British sea-fishery officers by regulations 13, 14 and 15 of these Regulations;
- (b) without reasonable excuse prevents, or attempts to prevent, any other person from complying with any such requirement; or
- (c) assaults an officer who is exercising any of the powers conferred on the officer by regulations 13, 14 and 15 of these Regulations or intentionally obstructs any such officer in the exercise of any of those powers,

is guilty of an offence.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1) is liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum; or
- (b) on conviction on indictment to a fine.

Offences by bodies corporate

18.-(1) Where any offence under these Regulations or any equivalent provision committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or a person purporting to act in any such capacity, that person as well as the body corporate is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where any offence under these Regulations or any equivalent provision committed by a partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner, that person as well as the partnership is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) Where any offence under these Regulations or any equivalent provision committed by an unincorporated association (other than a partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, any officer of the association or any member of its governing body, that person as well as the association is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

6 Mehefin 2006

6 June 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Erthygl 3

Article 3

Amodau perthnasol i gofrestriadau gwerthwyr pysgod

Conditions applicable to registrations of fish sellers

1. Rhaid hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais i gofrestru o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r newid digwydd.

1. The National Assembly must be informed of any changes to the information contained in the application for registration within 28 days of the change occurring.

2. Rhaid cyflwyno nodiadau gwerthiant yn unol â darpariaethau Erthygl 9.

2. Sales notes must be submitted in accordance with the provisions of Article 9.

ATODLEN 2

SCHEDULE 2

Erthygl 6

Article 6

Amodau perthnasol i ddynodiadau safleoedd arwerthu

Conditions applicable to designations of auction sites

1. Rhaid cynnal arwerthiannau ar yr adegau a hysbyswyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ac ar yr amod yr hysbysir swyddog pysgodfeydd môr Prydain am unrhyw amrywiad, a'i fod yn gymeradwy.

1. Auctions must be conducted only at the times notified to the National Assembly, subject to any variation notified to and approved by a local British sea fisheries officer.

2. Rhaid hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais i ddynodi o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd.

2. The National Assembly must be informed of any changes to the information contained in the application for designation within 28 days of the change occurring.

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

Erthygl 7

Article 7

Amodau perthnasol i gofrestriadau prynwyr pysgod

Conditions applicable to registrations of fish buyers

1. Rhaid hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais i gofrestru o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r newid digwydd.

1. The National Assembly must be informed of any changes to the information contained in the application for registration within 28 days of the change occurring.

2. Rhaid cyflwyno nodiadau gwerthiant yn unol ag Erthygl 22(2) o'r Rheoliad Cyngor (EC) 2371/2002.

2. Sales notes must be submitted in accordance with Article 22(2) of Council Regulation (EC) 2371/2002.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 1495 (Cy.145)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a
Gwerthwyr Pysgod a Dynodi
Safleoedd Arwerthu Pysgod
(Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 1495 (W.145)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Registration of Fish Buyers
and Sellers and Designation of Fish
Auction Sites (Wales) Regulations
2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W329/06/06

ON